# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 5 Mawrth 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Archwiliad o Anafiadau Diwydiannol

**C11 Brian Gibbons:** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnal archwiliad i anafiadau diwydiannol a ddigwyddodd yn ystod prosiectau cyhoeddus y sector cyhoeddus ar draws holl gyfrifoldebau'r Cynulliad? (OAQ16047) [R]

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Cyfrifoldeb y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch yw hynny; ni chafodd ei ddatganoli.

### Canol De Cymru

**C12 Jonathan Morgan:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar sut mae polisïau ei Lywodraeth yn effeithio ar Ganol De Cymru? (OAQ16049)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio yng Nghanol De Cymru, fel y mae hi ledled Cymru, i weithredu ei pholisïau, i ledaenu ffyniant economaidd a darparu gwell gwasanaethau i'r cyhoedd.

Yng Nghanol De Cymru, yn ddiweddar, bu inni:

- ymrwymo £750,000 i gam cyntaf cyfundrefn tocynnau lwyr-integredig, drwy gyflwyno cardiau mantais i deithio ar fysiau yn ardal Consortiwm Trafnidiaeth Integredig y De Orllewin, a fydd yn hwyluso teithio ar fysiau, ar y cyd â chyflwyno teithio am ddim i bensiynwyr a phobl anabl o 1 Ebrill 2002; a

- sicrhau rhyw 25 o brosiectau mewnfuddsoddi dros y 12 mis diwethaf, a hynny drwy wario ychydig llai na £350 miliwn o gyfalaf a fydd yn creu bron 4,000 o swyddi ac yn diogelu 1,100.

### Blaenoriaethau ym Maes Datblygu Polisi

**C13 Phil Williams:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar flaenoriaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym maes datblygu polisi dros y chwe mis nesaf? (OAQ16045)

**Prif Weinidog Cymru:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i Janet Davies yn gynharach y prynhawn yma (OAQ16039).

### Is-ddeddfwriaeth

**C14 Owen John Thomas:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gyda'i Weinidogion ynghylch defnyddio is-ddeddfwriaeth i gyflawni dyheadau poblogaidd Cymru? (OAQ16038) [W]

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn cadw mewn cysylltiad agos â'm cydweithwyr yn y Cabinet o ran gweithredu polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yr ydym yn defnyddio amrywiaeth helaeth o fecanweithiau i gyflawni ein gwaith ac mae is-ddeddfwriaeth yn un o'r mecanweithiau hyn.

Mae proses is-ddeddfwriaeth y Cynulliad yn dryloyw ac mae cyfleoedd i Aelodau'r Cynulliad ddylanwadu ar gynnwys deddfwriaeth a chynnig bod deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno.

### Mesurau ar Faterion Datganoledig

**C15 David Melding:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi eu cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar yr angen am Fesurau i Gymru yn unig, ar faterion datganoledig? (OAQ16048)

**Prif Weinidog Cymru:** Trafodaf hyn a materion eraill ynglŷn â deddfwriaeth sylfaenol â'r Ysgrifennydd Gwladol yn rheolaidd.